Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Llanfair Caereinion

Mount Road
Llanfair Caereinion
Y Trallwng
Powys
SY21 0AT

Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2025

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Llanfair Caereinion

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanfair Caereinion |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Angharad Lewis |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Angharad Lewis |
| Person â gofal | Sharon Vaughan |
| Nifer y lleoedd | 18 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 11 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 11 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau 9.00-11.30. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf ers cofrestriad y gwasanaeth ym mis Awst 2023. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Arolygiad cyntaf ers ofrestru ym mis Awst 2023 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 02/12/2025 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Mireinio trefniadau ar gyfer arsylwi ac adnabod cynnydd plant er mwyn defnyddio’r wybodaeth yn llawn wrth baratoi ar gyfer y camau nesaf yn y dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae bron bob plentyn yn hapus, ac yn mwynhau cwmni eu ffrindiau a'r ymarferwyr wrth iddynt gymdeithasu'n gynnes gyda'i gilydd. Maent yn hyderus i wneud dewisiadau ac yn mwynhau'r rhyddid i ddarganfod eu hamgylchedd. Er enghraifft, mae plant yn dewis os ydynt eisiau chwarae dan do neu yn yr ardal agored ac yn mwynhau darganfod ac arbrofi gyda'r offer cerddorol neu'r dasg ddŵr lle gallent baru sanau yn ôl eu lliw a'u maint. Mae bron bob plentyn yn gyfforddus i ymuno â grwpiau o ffrindiau yn ôl eu dewisiadau a'u diddordebau. Maent yn cydweithio'n rhwydd ag eraill, ac yn hyderus i ofyn am gymorth. Er enghraifft, mae plant yn gofyn am gefnogaeth i wisgo siaced diogelwch cyn mynd ati i frwsio'r llawr.

Mae bron bob plentyn yn setlo'n gyflym, ac wrth gyrraedd yn mynd ati i gymdeithasu a chwarae'n frwdfrydig gydag eraill. Maent yn fodlon ac yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd. Mae plant yn ymdopi'n dda ac yn teimlo'n ddiogel a chartrefol. Er enghraifft, maent yn chwerthin wrth iddynt fwynhau chwarae rôl ac yn gwenu yng nghwmni'r ymarferwyr wrth iddynt edrych am gymorth neu sicrwydd. Mae bron bob plentyn yn datblygu eu hunaniaeth ac yn dangos bod ganddynt ymdeimlad o berthyn. Maent wrth eu bodd yn edrych ar lyfrau'r lleoliad sy'n cynnwys lluniau eu teuluoedd, eu tai, eu hanifeiliaid anwes a'u cynefin.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio'n hapus ac yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn dda. Maent yn dysgu i ddatblygu perthnasoedd agos ac yn mwynhau gweld eu ffrindiau'n llwyddo. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn gêm cuddio, maent yn dathlu'n braf wrth weld eu ffrindiau yn dod o hyd i gi bach. Maent yn cydweithio'n hapus wrth adeiladu llwybrau gyda brics a chwerthin yn gyffrous wrth gymryd rhan mewn gweithgaredd dawns disgo. Maent yn rhyngweithio'n dda ag ymwelwyr, gan eu gwahodd i chwarae rôl neu sgwrsio am eu penderfyniadau i fynd i rhywle arall i chwarae.

Mae bron bob plentyn yn frwdfrydig ac yn dyfalbarhau gyda diddordeb a mwynhad wrth ddysgu. Er enghraifft, maent yn ymddiddori'n fawr wrth arbrofi gydag offer gwahanol drwy llenwi a gwagio adnoddau Nadoligaidd yn defnyddio sgwpiau bach ac yn meistroli defnyddio morthwylion, pinnau bach a siapiau eang i greu delweddau. Tu allan, mae llawer o blant yn arbrofi gyda phowlenni o ddŵr lliwgar i greu hylif hud i geirw Siôn Corn gan ddefnyddio llwyau bach, chwistrellu a photeli cul.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn hyderus i fynd i'r tŷ bach, golchi a sychu eu dwylo heb gymorth, a thacluso'n weithgar gan eu bod yn gwybod ble mae popeth yn cael ei storio. Maent yn dangos balchder wrth lwyddo yn eu

tasgau unigol ac yn cael mwynhad wrth hunangofrestru a threfnu eu cotiau a'u fflasgiau dŵr. Maent yn arllwys diodydd eu hunain ac yn fedrus  wrth ddefnyddio platiau go iawn.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn yn y lleoliad. Maent yn adeiladu'n gynyddol ar eu medrau ac yn ymateb yn aeddfed i'r ddarpariaeth gyfoethog sydd ar gael iddynt.

Mae'r plant yn arddangos dealltwriaeth dda o'r Gymraeg, sy'n ail iaith i'r rhan fwyaf ohonynt. Maent yn gwrando'n astud ar ei gilydd ac ar ymarferwyr, ac yn ystyriol o sylwadau eu ffrindiau wrth iddynt chwarae. Mae  llawer yn sgwrsio'n naturiol ac yn ymateb yn ddeallus i gwestiynau'r ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn arddangos agwedd gadarnhaol at lyfrau a straeon. Maent yn mynd at lyfrau yn ddigymell ac yn mwynhau eistedd i wrando ar stori o'u dewis.

Mae llawer o blant yn gwneud marciau ar wahanol ddeunyddiau gan ddefnyddio amrywiaeth o offer. Maent yn cofnodi marciau mewn gwahanol gyd-destunau, er enghraifft wrth greu rhestrau siopa, neu wrth gofnodi ar daith i lawr i dref Llanfair. Mae lleiafrif o blant mwy hyderus yn ysgrifennu eu henwau gyda chefnogaeth ymarferwyr i gofio'r gwahanol lythrennau. Mae ychydig yn egluro pam mae ambell lythyren ychydig yn fwy heriol iddynt.

Mae llawer o blant yn arddangos adnabyddiaeth dda o rifau a siapau. Maent yn defnyddio siapau lliwgar er mwyn creu amlinelliad o'r siâp gyda phensil ac yna'n torri'r siâp gyda siswrn yn ofalus. Mae llawer yn datblygu hyder i gyfri hyd at ddeg o fewn y grŵp yn ystod amser cylch, gyda lleiafrif yn medru gwneud yn annibynnol mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn arddangos ymwybyddiaeth dda o iaith feintiol wrth drafod gwahanol adnoddau.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arddangos medrau modur mân cadarn. Maent yn dal offer yn fedrus, er enghraifft wrth osod gwahanol wrthrychau at ei gilydd wrth greu siapiau tri dimensiwn o siapiau bach. Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn mwynhau mynd ar y sgwteri a'r beiciau yn yr ardal allanol gan reoli eu cyfeiriad yn hyderus, ac yn dringo'r grisiau bach yn ofalus.

Mae medrau creadigol y plant yn datblygu'n dda. Maent yn arddangos elfen o wreiddioldeb wrth benderfynu ar yr hyn yr hoffent ei beintio, gan ddefnyddio gwahanol liwiau paent a chynnwys gwahanol elfennau, yn ôl eu dymuniad. Yn yr ardal allanol, mae'r plant yn mwynhau gwrando ar gerddoriaeth amrywiol a chreu synau eu hunain gyda gwahanol offer. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol. Maent yn rheoli'r bwrdd gwyn rhyngweithiol yn fedrus wrth chwarae gemau sydd wedi eu cynllunio i

adeiladu eu hyder llafar.  Maent yn defnyddio ffonau bach i sgwrsio a byrddau lliw er mwyn creu darluniau.

Mae'r plant yn dyfalbarhau'n arbennig o dda wrth chwarae. Er enghraifft, maent yn defnyddio siapiau plastig i greu tŵr uchel lliwgar. Maent yn canolbwyntio'n aeddfed am gyfnod estynedig ac yn mwynhau gweld y tŵr yn tyfu'n uwch ac yn uwch.  Maent yn creu cymeriadau eu hunain wrth chwarae gyda'r tryciau mawr, ac yn llwyddo i gydweithio i ddatrys y broblem,  a chreu pont er mwyn cael y tryciau i ben y bryn.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae'r holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel. Maent yn blaenoriaethu eu hiechyd a'u diogelwch yn llwyddiannus, drwy asesu risgiau a chadw polisïau a gweithdrefnau cadarn yn eu lle. Mae gan yr holl ymarferwyr ddealltwriaeth glir o'r polisi diogelu ac maent wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant priodol. Maent wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf priodol, yn cadw cofnodion cywir ar gyfer damweiniau a digwyddiadau, ac yn deall y gweithdrefnau ar gyfer gweinyddu meddyginiaeth. Mae ymarferwyr yn angerddol am sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i fwynhau bwydydd iachus ac yn sicrhau eu bod yn dilyn arferion cadarn wrth gyflwyno cyfnodau snac a chinio. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu plant ag alergeddau ac yn cwblhau prosesau cofrestru manwl a threfnus er mwyn sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth glir o anghenon unigol bob plentyn, gan gynnwys cofnodion caniatâd. Yn ogystal, maent yn ymwybodol o systemau cefnogi ADY, a phetai angen, yn medru cydweithio â chyrff allanol ac unigolion proffesiynol i gefnogi plant a'u teuluoedd.  Mae ymarferwyr yn dilyn arferion cadarn o ran hylendid, er enghraifft wrth annog  plant i olchi eu dwylo yn rheolaidd ac wrth ddilyn prosesau cadarn wrth newid clytiau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae ganddynt berthynas garedig â'r plant ac maent yn modelu rhyngweithio mewn modd didwyll yn gyson. Mae ymarferwyr yn darparu gofal tyner ac yn adnabod pryd mae angen cefnogaeth a chymorth megis gwisgo, defnyddio adnoddau penodol, neu i awgrymu syniadau pellach. Maent yn frwdfrydig am eu gwaith ac yn cydweithio'n effeithiol i atgyfnerthu medrau cymdeithasol cadarnhaol. Maent yn annog y plant i ddangos gofal tuag at ei gilydd ac yn sicrhau bod plant yn dysgu am eu cyfrifoldebau i ofalu am bethau byw drwy fwydo'r pysgodyn aur yn ddyddiol. Mae ymarferwyr yn canmol plant yn gynnes ac yn eu hannog i ddatrys problemau drostynt eu hunain, megis defnyddio blociau hir i greu rampiau, a brics i ymestyn eu traciau. Mae'r holl ymarferwyr yn fodelau rôl da ac yn hybu'r iaith Gymraeg ar bob cyfle drwy ymateb, sgwrsio, canu a chyflwyno patrymau iaith cywir.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad, anghenion a dymuniadau unigol plant. Maent yn deall eu cyfrifoldebau i gefnogi diddordebau a medrau unigol plant ac yn barod iawn i gefnogi plant yn eu dysgu, fel reidio sgwter, dal siswrn, a chreu marciau. Maent yn cynnig cyfleoedd creadigol i ymestyn profiadau a medraur plant ac yn nodi eu syniadau a'u gofynion. Maent wrth law i gynnig cefnogaeth, pan fo angen. Maent yn awyddus i sicrhau bod plant yn cael cyfleoedd i fwynhau adnoddau a llyfrau o safon ac wrth gynllunio'n ofalus i gyflwyno gweithgareddau diddorol ac ysgogol ar gyfer eu datblygiad a'u hanghenion unigol pellach.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol wrth gyflwyno cwricwlwm eang a diddorol. Maent yn gweithio'n gydwybodol er mwyn addasu'r ddarpariaeth fel ei bod yn hyrwyddo datblygiad medrau ynghyd ag annibyniaeth ymysg y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o sut mae plant yn dysgu, ac maent yn cynllunio amrediad effeithiol o weithgareddau sy'n caniatáu i'r plant archwilio mewn gwahanol gyd-destunau a gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain. Maent yn ymateb i ddiddordebau a mwynhad y plant, ac mae'r proffiliau un tudalen sy'n weithredol yn amlygu'r berthynas agos sydd ganddynt â rhieni a gofalwyr.

Mae'r staff yn fodelau iaith effeithiol. Maent yn siarad yn glir ac yn ailadrodd pan fo angen er mwyn sicrhau bod plentyn yn deall cwestiwn neu gyfarwyddiadau. Mae hyn i'w weld yn glir yn ystod amser stori, lle mae'r plant yn amlwg yn mwynhau, ac yn llawn bwrlwm wrth glywed hanes Sion Corn. Maent yn defnyddio tafodiaith naturiol Maldwyn.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo cariad at lyfrau a straeon yn effeithiol. Lleolir gwahanol lyfrau ar draws yr ardaloedd er mwyn i'r plant fynd atynt a dysgu ymddygiadau darllenwr. Maent yn mwynhau edrych ar y lluniau, er enghraifft wrth drafod rysetiau tra'n chwarae tŷ yn y ardal cartref. Ceir cyfleoedd buddiol i'r plant wneud marciau mewn gwahanol gyd-destunau a gan ddefnyddio amrywiaeth eang o offer. Mae'r ddarpariaeth yn sicrhau profiadau cyfoethog wrth i'r plant ddechrau cyfri a dod yn fwy ymwybodol o wahanol siapiau dau ddimensiwn a chysyniadau syml wrth fesur a phwyso.

Mae ymarferwyr yn darparu amrediad da o adnoddau er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth plant o wahanol ddiwylliannau. Maent yn chwarae gydag adnoddau megis jig-sos a doliau, ac mae arddangosfeydd o luniau plant o wahanol gefndiroedd. Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol plant er mwyn iddynt ddod yn unigolion caredig a meddylgar. Mae'r plant yn mwynhau treulio ennyd dawel yn yr ardal synhwyraidd a dysgu gofalu am y pysgodyn aur a'i wylio'n nofio'n osgeiddig a thawel.

Mae gan yr holl ymarferwyr berthynas gref iawn â'r plant yn eu gofal. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn modelu medrau cymdeithasol cadarnhaol. Mae hyn yn cael

effaith dda iawn ar ymddygiad y plant, sy'n cyd=chwarae'n hapus. Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn fedrus yn y chwarae, gan holi cwestiynau er mwyn ymestyn meddwl y plentyn. Maent yn annog yn hynod effeithiol, ac yn darparu cefnogaeth a chynhaliaeth i'r plant yn unol â'r galw. Yn ogystal, ar adegau, maent yn deall pwysigrwydd camu'n ôl er mwyn caniatáu i'r chwarae ddatblygu, gan arsylwi ar y plant yn cynnig syniadau a datrys problemau.

Ceir cyfleoedd byr ac effeithiol i'r plant ddod at ei gilydd ar y carped er mwyn mwynhau gwahanol weithgareddau neu drafod geirfa benodol. Mae'r cyfnodau hyn yn cynnal diddordeb y plant yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth wrando ar stori roeddent wedi ei dewis trwy bleidlais yn y bore.

Mae'r ymarferwyr wedi datblygu eu systemau ar gyfer adnabod cynnydd a pharatoi ar gyfer y camau nesaf yn y dysgu. Maent yn arsylwi ar y plant yn gyson er mwyn adnabod camau arwyddocaol yn eu medrau ac yn dechrau addasu'r ddarpariaeth wrth ymateb i gynnydd pob plentyn. Er hyn, nid yw'r drefn hon wedi ei datblygu'n llawn hyd yma.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel a glân. Mae ganddynt fesurau effeithiol a chlir er mwyn sicrhau bod neb yn cael mynediad i'r safle heb ganiatâd a bod y plant ddim yn medru gadael heb oruchwyliaeth. Er enghraifft, maent yn cadw'r brif giât allanol dan glo yn ystod oriau gofal ac yn sicrhau bod cofnodion trylwyr o bresenoldeb plant, ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae cofnodion cynnal a chadw'r lleoliad yn gyfredol ac mae arweinwyr yn cwblhau ymarferion tân yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn cadw asesiadau risg effeithiol a phwrpasol, ac mae rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Maent yn cynnig ardaloedd gwybodaeth sy'n arddangos tystiolaeth glir am ymarferwyr, polisïau a gweithdrefnau diogelu ac yn sicrhau bod cymarebau ymarferwyr i blant yn gywir ar bob adeg. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, mae arweinwr yn cadw rheolaeth effeithiol dros unrhyw beryglon, ac yn lleihau unrhyw risg i blant.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd cartrefol a chroesawgar, sy'n cynnig digonedd o olau naturiol. Maent wedi'i gynllunio'n ofalus er mwyn bodloni gofynion ac oedran plant ar y safle. Mae arweinwyr yn darparu cyfleusterau da sy'n hwyluso profiadau'r plant, megis uned toiledau addas ac ardal ar gyfer newid clytiau. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r lleoliad megis derbynfa agored ar gyfer cotiau a bagiau'r plant, cegin addas ar gyfer paratoi bwydydd, a drysau i'r ardal allanol sy'n caniatáu chwarae llif parhaus a diogel i blant. O fewn yr ardal chwarae dan do, mae arweinwyr yn cynnig amgylchedd da iawn gydag ardaloedd diddorol sy'n gwahodd y plant i fentro, i ddarganfod ac i ddatblygu eu hannibyniaeth. Er enghraifft, maent yn darparu ardaloedd creu marciau, creadigol, stori, chwarae rôl a darganfod. Yn ogystal, maent yn cynnig amgylchedd allanol cyffrous ar gyfer profiadau ac anturiaethau ysgogol. Er enghraifft, ardaloedd dan do ar gyfer adeiladu, ac

arbrofi gyda dŵr a thywod, ac arwynebau serth sy’n cynnig heriau i blant feithrin medrau corfforol. Mae arweinwyr wedi datblygu ardal blannu newydd sy’n cynnig lle diogel ychwanegol i blant gael profiadau go iawn.

Mae arweinwyr yn cynnig ystod eang o adnoddau o ansawdd da fel bod plant yn cael profiadau effeithiol a chyffrous. Maent yn eu cyflwyno ar lefelau isel, gyda dychymyg, fel bod plant yn cael cyfleoedd helaeth i arbrofi, darganfod a dilyn eu diddordebau. Mae arweinwyr yn darparu adnoddau addas iawn o ran oedran a datblygiad plant gan sicrhau bod cyfleoedd i brofi rhannau rhydd naturiol, fel cerrig a brigau, ac offer go iawn fel llestri ac offer a llyfrau coginio. Mae arweinwyr yn annog datblygiad personol a chymdeithasol plant yn effeithiol trwy drefnu profiadau iddynt fod yn rhan agos o’u cymuned. Er enghraifft, maent yn sicrhau cyfleoedd i’r plant gasglu sbwriel, mynd ar helfa chwilod ac i ymweld â’r eglwys a’r siopau lleol. Maent yn sicrhau bod delweddau ac adnoddau gwerthfawr ar gyfer plant, megis llyfrau, lluniau o ardaloedd enwog, gwisgoedd ac adnoddau fel eu bod yn dysgu am y byd amlddiwylliannol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y ddarpariaeth sydd wedi ei seilio’n gadarn ar ddarparu gofal ac addysg o safon uchel mewn amgylchedd garedig a hapus. Mae’r pwyllgor rheoli yn uned gref ac yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth gyson a buddiol ar gyfer yr arweinydd a’r ymarferwyr. Mae’r arweinydd yn angerddol, ac yn cydweithio’n agos ac effeithiol â’r tîm brwdfrydig o ymarferwyr er mwyn cynnal darpariaeth o safon uchel. Mae’r datganiad o ddiben yn ddogfen fanwl ac effeithiol ac yn darparu darlun clir o’r ddarpariaeth i rieni, ac mae amrediad buddiol o weithdrefnau a pholisïau wedi eu gwreiddio’n dda. Yn ddiweddar, maent wedi penodi swyddog marchnata er mwyn darparu gwybodaeth yn amserol i rieni a gofalwyr yr ardal.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau pwrpasol ar gyfer adnabod cryfderau’r lleoliad a’r agweddau sydd angen sylw. Maent yn deall pwysigrwydd gwerthuso’r ddarpariaeth yn gyson trwy gydol y flwyddyn, gan ymateb i anghenion plant a sicrhau eu bod yn addasu’r ddarpariaeth yn unol â’u hanghenion. Enghraifft nodedig o hyn yw’r gwaith a wnaethpwyd yn datblygu gardd y cylch oedd wedi ei hadnabod fel rhywbeth roedd angen ei ddatblygu. Cytunwyd ar gamau penodol gan gynnwys sicrhau grant i ariannu’r prosiect ac yna sefydlu’r ardd mewn man nad oedd yn cael ei ddefnyddio’n flaenorol. Bellach, mae’r ardd yn weithredol ac yn cyfrannu’n sylweddol at brofiadau dysgu’r plant.

Mae arweinwyr yn cynnal ac yn cefnogi’r staff trwy gydweithio agos a chyfarfodydd tîm rheolaidd, gan gynnwys mynychu cyfarfodydd y pwyllgor, ar adegau. Maent yn cynnal gweithdrefnau recriwtio diogel ac yn sicrhau bod niferoedd ymarferwyr yn briodol ar gyfer y plant sy’n mynychu’r lleoliad ar wahanol ddyddiau. Cynhelir gweithgareddau rheoli perfformiad addas. Yn sgil y cyfarfodydd, ceir cyfleoedd i ymarferwyr gymryd rhan mewn

hyfforddiant neu gyfleoedd i rannu arfer dda. Yn ddiweddar, cynhaliwyd hyfforddiant gwrthhiliaeth er mwyn atgyfnerthu ymwybyddiaeth yr ymarferwyr o bwysigrwydd cynhwysiad.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr. Mae cyfleoedd rheolaidd i rieni ddod i mewn i'r lleoliad er mwyn gweld eu plant yn chwarae, a rhennir adroddiad cynnydd defnyddiol gyda nhw yn rheolaidd. Ceir llyfrgell yn y lleoliad lle gall rhieni fenthyg llyfrau Cymraeg a'u dychwelyd. Mae hyn yn annog y rhieni i fwynhau amser stori gyda'u plant ac yn gymorth gan fod y rhan fwyaf o rieni a gofalwyr yn ddi-Gymraeg. Mae gan y lleoliad berthynas weithiol agos a chefnogol â thîm athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol. Maent yn croesawu ymweliadau rheolaidd gyda'r swyddogion sy'n darparu adborth datblygiadol buddiol i arweinwyr ei ystyried.

Sefydlwyd perthynas waith fuddiol â'r ysgolion o fewn y dalgylch ac mae trefniadau i'r plant ymweld â'r ysgolion y byddant yn trosglwyddo iddynt ar gyfer y cam nesaf yn eu dysgu. Mae hyn yn cynnal hyder a lles y plant yn llwyddiannus. Mae gan y lleoliad amrediad da o bartneriaethau â'r gymuned leol yn Llanfair Caereinion. Maent yn deall pwysigrwydd datblygu ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin a phwysigrwydd perthyn i gymuned. Enghraifft nodedig o hyn oedd pan fu'r plant yn peintio pabi coch ar garreg a'i gosod ar y gofgolofn yn y dref ar achlysur Sul y Cofio.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol/Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/02/2026